

Gwobrau Arloesedd Marchnata 2011



Clodfori a gwobrwyo arloesedd ym maes
marchnata yn llyfrgelloedd Cymru

Ariennir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Funded by
Welsh Assembly Government



Mae llyfrgelloedd ar hyd a lled Cymru yn cynnal gweithgareddau marchnata arloesol - yn aml gydag adnoddau prin.

Bwriad y gwobrau hyn yw clodfori'r gwaith gwerthfawr y bydd staff llyfrgelloedd yn ei wneud er mwyn dod â gwasanaethau llyfrgelloedd at gynulleidfaoedd newydd a datblygu gweithgareddau newydd ar gyfer defnyddwyr presennol.

"Ddwy flynedd yn ôl fe ddaethom yn drydydd gyda'n menter cylchlythrau ac roedden ni eisiau cyrraedd y brig y llynedd. Roedd ennill yn brofiad anhygoel ac fe gyfrannodd yn fawr at broffil Llyfrgell Cilâ o fewn yr Awdurdod. Mae pob un ohonom yn hynod falch o ennill y wobr a byddwn yn sicr o gyflwyno cais arall eleni."

Steven Jeacock – Llyfrgell Cilâ, Abertawe

"Roeddem yn falch iawn o dderbyn y wobr. Mae wedi golygu llawer mwy o hybu sgiliau gwybodaeth o fewn y brifysgol, er budd y rhai sy'n cyfrif yn y diwedd – sef ein defnyddwyr. Nid ydym wedi gorffwys ar ein rhwyfau – bydd y syniadau a archwiliwyd am y tro cyntaf gyda'r Diwrnod GAP yn datblygu i gyfeiriadau newydd yn y flwyddyn sy'n dod. Roedd y gydnabyddiaeth a ddaeth yn sgil y wobr farchnata yn hwb i ni, a hir y parhaed yr arfer o rannu syniadau rhwng llyfrgelloedd a sectorau!"

Karl Drinkwater – Prifysgol Aberystwyth

Cewch weld yr holl enillwyr blaenorol ar y pecyn offer staff yn llyfrgell.cymru.org/pecynofferstaff/

Pam dylwn i gymryd rhan yn y Gwobrau Arloesedd Marchnata?

Mae'r gwobrau yn rhoi cyfle i staff llyfrgelloedd gael cydnabyddiaeth genedlaethol am eu gwaith yn hyrwyddo eu gwasanaeth.

Mae categorïau ar wahân ar gyfer llyfrgelloedd cyhoeddus ac academaidd fel a ganlyn:

Llyfrgelloedd Cyhoeddus

- 1af – plac/tlws a £500 o dalebau
- 2il – plac/tlws a £300 o dalebau
- 3ydd – plac/tlws a £200 o dalebau

Llyfrgelloedd Addysg Uwch

- plac/tlws a £500 o dalebau

Llyfrgelloedd Addysg Bellach

- plac/tlws a £500 o dalebau

Sylwch: gallwch ddefnyddio'r talebau fel y dymunwch e.e. eu rhannu i'r staff, eu defnyddio i hyrwyddo'r llyfrgell.

Manteision ychwanegol:

- Cyfle i gael sylw cadarnhaol ar y cyfryngau a meithrin cysylltiadau â'ch cyfryngau lleol
- Cyfle i feithrin partneriaethau newydd
- Y bri o ennill gwobr genedlaethol
- Cyfle gwych i adeiladu tîm ac ysbrydoli staff
- Cydnabod y rôl hanfodol y mae staff yn ei chwarae

Pa feini prawf a ddefnyddir wrth feirniadu'r ceisiadau?

Bydd ceisiadau yn cael eu beirniadu gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol:

- Gwreiddioldeb y syniad a pha mor addas yw ar gyfer y farchnad darged
- Meddwl yn greadigol ac arloesedd
- Gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol
- Denu cynulleidfaoedd newydd
- Defnyddio cyfuniad o weithgarwch hyrwyddol yn effeithiol e.e. dylunio ac argraffu, arlein
- Llwyddiant y prosiect o ran mynychu/ymateb
- Faint o sylw cadarnhaol a gafwyd yn y wasg
- Defnyddio adnoddau'n effeithiol e.e. amser staff, offer, lleoliad, cyllideb
- Cynaliadwyedd y prosiect

Amodau cymryd rhan

- Mae'r gwobrau hyn yn agored i'r holl lyfrgelloedd cyhoeddus ac academaidd yng Nghymru (bydd ceisiadau yn cael eu derbyn gan lyfrgelloedd unigol neu gan wasanaethau llyfrgell awdurdodau lleol/sefydliadau)
- Rhaid i brosiectau fod wedi'u cynnal rhwng 1af Ebrill - 18 Chwefror 2011
- Bydd ceisiadau sy'n hyrwyddo gweithgareddau fel rhan o fentrau/ ymgyrchoedd cenedlaethol yn gymwys i gymryd rhan
- Gellir anfon ceisiadau yn Gymraeg a/neu yn Saesneg
- Rhaid cynnwys ffurflen gais wedi'i llenwi gyda phob ymgais
- Gall ymgeiswyr ymddangos mewn datganiadau i'r wasg/sylw ar y cyfryngau a thrwy gymryd rhan yn y gwobrau maent yn cydsynio i hyn

Pwy fydd yn beirniadu'r ceisiadau?

- Bydd beirnia(i)d annibynnol perthnasol yn cael ei ddewis/eu dewis
- Bydd penderfyniad y beirnia(i)d yn derfynol ac ni fydd gohebu o gwbl

Anfon eich ceisiadau

- Gellir anfon ceisiadau yn y post (rydym yn argymhell Post Cofnodedig) neu drwy e-bost – byddwn yn cadarnhau derbyn pob ymgais
- Mae copi electronig o'r ffurflen gais ar gael yn llyfrgell.cymru.org/pecynofferstaff/
- Yn anffodus, ni allwn ddychwelyd ceisiadau, felly cofiwch gadw copi ar gyfer eich cofnodion

Unrhyw gwestiynau?

Os bydd arnoch angen rhagor o gyngor am y gwobrau, cysylltwch â Jane neu Nicola

Ffôn: 01978 297437 neu 01978 297439

E-bost: jane.purdie@wrexham.gov.uk
nicola.williams@wrexham.gov.uk

Mae 'Llyfrgelloedd am Oes' yn rhaglen ddatblygu strategol i wella gwasanaethau llyfrgell a gwybodaeth. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn buddsoddi £10.5 miliwn rhwng 2008 a 2011. Mae'r rhaglen yn cael ei gweinyddu gan CyMAL: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru, un o is-adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae rhaglen Llyfrgelloedd am Oes yn cefnogi gwasanaethau llyfrgell yng Nghymru i weithio mewn partneriaeth er mwyn gwella mynediad am ddim at ddeunyddiau diwylliannol, addysgol a hamdden yn adeiladau llyfrgelloedd, yn y gymuned ac arlein.



Ffurflen Gais

Teitl y prosiect:

Dyddiad dechrau'r prosiect:

Dyddiad gorffen y prosiect os daeth i ben:

Anfonwch fanylion llawn am eich prosiect a chofiwch gynnwys y manylion canlynol:

- | | |
|--|--|
| <input type="checkbox"/> Amcanion | <input type="checkbox"/> Gweithgareddau Hyrwyddo |
| <input type="checkbox"/> Crynodeb o'r Prosiect | <input type="checkbox"/> Sylw yn y Wasg |
| <input type="checkbox"/> Cynulleidfa Darged | <input type="checkbox"/> Gwerthusiad |
| <input type="checkbox"/> Manylion y Gyllideb | <input type="checkbox"/> Deunydd Ategol |

Gwasanaeth Llyfrgell /Sefydliad:

Enw Cyswllt:

Cyfeiriad:

.....

..... Côd Post:

Rhif Ffôn: E-bost:

Anfonwch eich cais i gyrraedd dim hwyrach na dydd Llun 28 Chwefror 2011 at:

Nicola Williams/Jane Purdie

Swyddogion Prosiect Marchnata Llyfrgelloedd am Oes

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam

Stryd Lambpit

Wreccsam LL11 1AR

E-bost: nicola.williams@wrexham.gov.uk / jane.purdie@wrexham.gov.uk